



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2006 Rhif 1761 (Cy.183)**

**2006 No.1761 (W.183)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMALS, WALES**

**IECHYD ANIFEILIAID, CYMRU**

**ANIMAL HEALTH, WALES**

**Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu)  
(Cymru) 2006**

**The Avian Influenza (Vaccination)  
(Wales) Regulations 2006**

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn trosi i Gymru Gyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau Cymunedol i reoli fflw adar a honno'n Gyfarwyddeb sy'n diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EEC (OJ Rhif L10, 14.1.2006, t. 16) i'r graddau y mae'n ymdrin â brechu yn erbyn fflw adar.

These Regulations transpose for Wales Council Directive 2005/94/EC on Community measures for the control of avian influenza repealing Directive 92/40/EEC (OJ No. L10, 14.1.2006, p. 16) insofar as it deals with vaccination against avian influenza.

Mae Rheoliad 4 yn gosod gwaharddiad cyffredinol ar frechu anifeiliaid yn erbyn fflw adar ac eithrio pan fo'n ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Regulation 4 imposes a general prohibition on vaccination of animals against avian influenza except where required by the National Assembly.

Mae Rheoliadau 5 a 6 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatgan parthau brechu mewn ardaloedd sy'n cynnwys dofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu i atal y risg o ymlediad fflw adar, neu i gyflwyno hysbysiadau brechu ar gyfer mangreoedd lle mae adar o'r fath yn cael eu cadw. Dim ond pan fo asesiad risg wedi'i wneud a bod hwnnw wedi dangos bod risg y byddai fflw adar yn ymledu yng Nghymru neu i Gymru, neu fod ardaloedd penodol neu adar penodol yn agored beth bynnag i risg fflw adar, y caniateir cyflawni mesurau o'r fath. Bydd y mesurau hyn yn fesurau brys neu'n fesurau atal, yn dibynnu ar natur y risg.

Regulations 5 and 6 require the National Assembly to declare vaccination zones in areas which contain poultry or other captive birds which it considers should be vaccinated to prevent the risk of the spread of avian influenza, or to serve vaccination notices on premises where such birds are kept. Such measures can only be carried out where a risk assessment has been carried out and it has indicated that there is a risk of avian influenza spreading within or into Wales, or that certain areas or birds are in any event exposed to the risk of avian influenza. These measures will be emergency or preventive, depending on the nature of the risk.

Mae Rheoliad 7 yn estyn y pŵer i frechu anifeiliaid yn adran 16 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (p.22, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002, p.42) ("y Ddeddf") ac o ganlyniad, effaith darpariaethau eraill y Ddeddf o ran brechu.

Regulation 7 extends the power to vaccinate animals in section 16 of the Animal Health Act 1981 (c.22, amended by the Animal Health Act 2002, c.42) ("the Act") and consequentially, the effect of the other provisions of the Act relation to vaccination.

Mae Rheoliad 8 yn darparu ar gyfer mesurau sy'n gymwys mewn parth brechu neu fangre a bennir mewn

Regulation 8 provides for measures applying in a vaccination zone or premises stipulated in a vaccination notice. The National Assembly must stipulate in the declaration or notice whether

hysbysiad brechu. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol bennu yn y datganiad neu'r hysbysiad a yw'n ofynnol i'r brechu gael ei wneud gan feddiannydd y fangre berthnasol neu a yw i gael ei wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol ac a yw'n ofynnol cydweithredu. Mae gwaharddiad cyffredinol hefyd ar symud dofednod neu adar caeth eraill yn y parth neu'r fangre, i mewn iddo neu iddi neu allan ohono neu ohoni oni bai bod y symud wedi'i awdurdodi gan drwydded.

Mae Rheoliad 9 yn darparu, pan fo gwaith brechu brys yn cael ei wneud cyn bod y Comisiwn wedi cymeradwyo'r cynllun brechu brys, bod rhaid i unrhyw drwydded sy'n caniatáu i ddofednod neu adar caeth eraill gael eu symud osod y gofynion a nodir yn yr Atodlen.

Mae Rheoliad 10 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adar a ddylai fod wedi'u cynnwys mewn rhaglen frechu ond nad oeddent wedi'u brechu ni waeth beth fo'u rheswm.

Mae Rheoliad 11 yn ei gwneud yn ofynnol i feddianwyr ddarparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau pan fo'n ofynnol glanhau a diheintio cerbydau yn eu mangroedd.

Mae Rheoliad 12 yn darparu ar gyfer bwydo a thendio anifeiliaid neu ddofednod na ellir eu symud adeg terfynu hawl i feddiannu oherwydd cyfyngiad a osodwyd gan y Rheoliadau.

Mae Rheoliadau 13 i 22 yn gwneud darpariaeth sy'n gysylltiedig â thramgwyddau a gorfodi. Yn benodol, mae rheoliad 18 yn cymhwyso darpariaethau cysylltiedig â thramgwyddau sydd yn y Ddeddf fel petai'r Rheoliadau wedi cael pŵer o dan y Ddeddf; o ganlyniad, mae methu â chydymffurfio â'r Rheoliadau yn dramgwydd o dan adran 73 o'r Ddeddf (rheoliad 18(1)(dd)). Mae Rheoliad 18(3) yn darparu y bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn agored ar gollfarn ddiannod i gyfnod yn y carchar nad yw'n hwy na 3 mis neu i ddirwy nad yw'n fwy na £5000 neu'r ddau.

Nid oes arfarniad rheoliadol o'r effaith y bydd yr offeryn hwn yn ei chael ar gostau busnes wedi'i lunio. Gellir cael Nodyn Trosi, sy'n nodi sut y trosir prif elfennau Cyfarwyddeb 2005/94/EC yn y Rheoliadau hyn, oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

vaccination is required to be carried out by the occupier of the relevant premises or whether it is to be carried out by it and co-operation is required. There is also a general prohibition on the movement of poultry or other captive birds within, into or out of the zone or premises unless authorised by licence.

Regulation 9 provides that where emergency vaccination is undertaken before the Commission has approved the emergency vaccination plan, any licence permitting the movement of poultry or other captive birds must impose the requirements set out in the Schedule.

Regulation 10 makes provision for birds which ought to have been included in a vaccination programme but were not for any reason vaccinated.

Regulation 11 requires occupiers to provide facilities, equipment and materials where cleansing and disinfection of vehicles is required on their premises.

Regulation 12 provides for the feeding and tending of animals or poultry which cannot be moved on termination of a right of occupation because of a restriction imposed by the Regulations.

Regulations 13 to 22 make provision related to offences and enforcement. In particular, regulation 18 applies offence related provisions of the Act as if the Regulations were empowered by the Act; consequentially, failure to comply with the Regulations is an offence under section 73 of the Act (regulation 18(1)(f)). Regulation 18(3) provides that a person guilty of an offence under these Regulations will be liable on summary conviction to imprisonment for a term not exceeding 3 months or to a fine not exceeding £5000 or both.

A regulatory appraisal of the effect that this instrument will have on the costs of business has not been prepared. A Transposition Note setting out how elements of Directive 2005/94/EC are transposed in these Regulations may be obtained from the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2006 Rhif 1761 (Cy.183)

2006 No.1761 (W.183)

## ANIFEILIAID, CYMRU

## ANIMALS, WALES

## IECHYD ANIFEILIAID, CYMRU

## ANIMAL HEALTH, WALES

Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu)  
(Cymru) 2006The Avian Influenza (Vaccination)  
(Wales) Regulations 2006*Wedi'u gwneud* 5 Gorffennaf 2006*Made* 5 July 2006*Yn dod i rym* 6 Gorffennaf 2006*Coming into force* 6 July 2006

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'i ddynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) o ran polisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd(2).

The National Assembly for Wales, is designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(1) in relation to the common agricultural policy of the European Community(2).

Drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan yr adran honno, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Exercising the powers conferred upon it by that section, the National Assembly for Wales makes the following Regulations:

**Enwi, cymhwyso a chychwyn****Title, application and commencement**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ffliw Adar (Brechu) (Cymru) 2006.

1.—(1) The title of these Regulations is The Avian Influenza (Vaccination) (Wales) Regulations 2006.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 6 Gorffennaf 2006.

(2) These Regulations apply in relation to Wales and come into force on 6 July 2006.

**Dehongli****Interpretation**

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

2.—(1) In these Regulations—

ystyr “aderyn caeth arall” (“*other captive bird*”) yw unrhyw aderyn a gedwir yn gaeth ac nad yw'n ddofedyn, ac mae'n cynnwys aderyn a gedwir ar gyfer sioeau, rasis, arddangosfeydd, cystadlaethau, ar gyfer bridio neu i'w werthu;

“the Act” (“*y Ddeddf*”) means the Animal Health Act 1981(3);

ystyr “arolygydd” (“*inspector*”) yw arolygydd a benodwyd gan awdurdod lleol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu o dan y Ddeddf, neu arolygydd milfeddygol;

“avian influenza” (“*ffliw adar*”) means an infection of poultry or other captive birds caused by any influenza A virus of the subtypes H5 or H7 or with an intravenous pathogenicity index in six week old chickens greater than 1.2;

(1) 1972 p.68.

(2) O.S. 2005/2766.

(1) 1972 c.68.

(2) S.I. 2005/2766.

(3) 1981 c.22, amended by S.I. 1992/3293 and the Animal Health Act 2002, c.42. Other amendments are not relevant to these Regulations.

ystyr “arolygydd milfeddygol” (“*veterinary inspector*”) yw arolygydd milfeddygol a benodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliadau hyn neu o dan y Ddeddf;

ystyr “awdurdod lleol” (“*local authority*”) o ran ardal yw’r cyngor sir neu’r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr “brechu” (“*vaccinate*”) yw trin dofednod neu adar caeth arall â brechlyn yn erbyn fflw adar;

mae i “brechu ataliol” yr un ystyr â “*preventive vaccination*” yn Erthygl 56 o’r Gyfarwyddeb;

mae i “brechu brys” yr un ystyr ag “*emergency vaccination*” yn Erthygl 53 o’r Gyfarwyddeb;

ystyr “Cynulliad Cenedlaethol” (“*National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr “dofednod” (“*poultry*”) yw’r holl adar sy’n cael eu magu neu eu cadw’n gaeth i gynhyrchu cig i’w fwyta neu wyau i’w bwyta, cynhyrchu cynhyrchion eraill, i ailstocio cyflenwadau adar hela neu at ddibenion unrhyw raglen fridio ar gyfer cynhyrchu’r categorïau hyn o adar;

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(1);

ystyr “ffliw adar” (“*avian influenza*”) yw haint mewn dofednod neu adar caeth eraill a achosir gan unrhyw firws fflw A o’r is-deipiau H5 neu H7 neu haint y mae ei fynegai pathogenedd mewnwythiennol mewn cywion ieir chwe wythnos oed yn uwch nag 1.2;

ystyr “y Gorchymyn Fflw Adar” (“*the Avian Influenza Order*”) yw Gorchymyn Fflw Adar a Fflw sy’n Tarddu o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) 2006(2);

ystyr “y Gyfarwyddeb” (“*the Directive*”) yw Cyfarwyddeb y Cyngor 2005/94/EC ar fesurau Cymunedol i reoli fflw adar a honno’n Gyfarwyddeb sy’n diddymu Cyfarwyddeb 92/40/EEC(3);

mae “mangre” (“*premises*”) yn cynnwys unrhyw dir, adeilad neu le.

(2) Mae i ymadroddion Saesneg eraill a ddiffinnir yn y Gyfarwyddeb yr un ystyr â’r ymadroddion Cymraeg cyfatebol yn y Rheoliadau hyn.

“the Avian Influenza Order” (“*y Gorchymyn fflw adar*”) means the Avian Influenza and Influenza of Avian Origin in Mammals (Wales) Order 2006(1);

“the Directive” (“*y Gyfarwyddeb*”) means Council Directive 2005/94/EC on Community measures for the control of avian influenza and repealing Directive 92/40/EEC(2);

“emergency vaccination” (“*brechu brys*”) has the same meaning as it has in Article 53 of the Directive.

“inspector” (“*arolygydd*”) means an inspector appointed by a local authority for the purposes of these Regulations or under the Act, or a veterinary inspector;

“local authority” (“*awdurdod lleol*”) means in relation to an area the county council or county borough council for that area;

“National Assembly” (“*Cynulliad Cenedlaethol*”) means the National Assembly for Wales of Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ

“other captive bird” (“*aderyn caeth arall*”) means any bird kept in captivity which is not poultry and includes a bird kept for shows, races, exhibitions, competitions, breeding or for sale;

“poultry” (“*dofednod*”) means all birds that are reared or kept in captivity for the production of meat or eggs for consumption, the production of other products, for restocking supplies of game or for the purposes of any breeding programme for the production of these categories of birds;

“premises” (“*mangre*”) includes any land, building or place;

“preventive vaccination” (“*brechu ataliol*”) has the same meaning as it has in Article 56 of the Directive;

“vaccinate” (“*brechu*”) means treat poultry or other captive birds with vaccine against avian influenza;

“veterinary inspector” (“*arolygydd milfeddygol*”) means a veterinary inspector appointed by the National Assembly for the purposes of these Regulations or under the Act.

(2) Other expressions defined in the Directive have the same meaning in these Regulations.

(1) 1981 p.22, fel y’i diwygiwyd gan O.S. 1992/3293 a Deddf Iechyd Anifeiliaid 2002, p.42. Nid yw’r diwygiadau eraill yn berthnasol i’r Rheoliadau hyn.

(2) O.S. 2006/1762 (Cy.184).

(3) OJ Rhif L 10, 14.1.2006, t. 16.

(1) S.I. 2006/1762 (W.184).

(2) OJ No. L 10, 14.1.2006, p. 16.

### Datganiadau, hysbysiadau a thrwyddedau

3.—(1) O ran y datganiadau sy'n cael eu gwneud o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) rhaid iddynt fod mewn ysgrifen;
- (b) caniateir eu diwygio neu eu dirymu, drwy ddatganiad ysgrifenedig pellach, ar unrhyw adeg;
- (c) rhaid iddynt ddynodi maint y parth brechu sy'n cael ei ddatgan;
- (ch) rhaid iddynt gyfeirio at y mesurau gofynnol sy'n gymwys yn y parth brechu a dweud a ydynt yn gymwys yn y parth cyfan ynteu mewn rhan ohono;
- (d) rhaid iddynt ddweud i ba categorïau o adar y mae'r mesurau yn gymwys iddynt; ac
- (dd) rhaid iddynt ddweud ar draul pwy y mae'r mesurau i'w cyflawni.

(2) O ran hysbysiadau a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) caniateir eu diwygio neu eu dirymu, drwy hysbysiad pellach, ar unrhyw bryd;
- (b) rhaid iddynt bennu a ydynt yn gymwys i'r cyfan neu ran o'r fangre;
- (c) os ydynt yn gymwys i ran o fangre, rhaid iddynt bennu i ba ran ohoni y maent yn gymwys;
- (ch) rhaid iddynt gyfeirio at y mesurau gofynnol sy'n gymwys i'r fangre;
- (d) rhaid iddynt ddweud i ba categorïau o adar y mae'r mesurau yn gymwys iddynt; ac
- (dd) rhaid iddynt ddweud ar draul pwy y mae'r mesurau i'w cyflawni.

(3) O ran trwyddedau a roddir o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) rhaid iddynt fod yn drwyddedau a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol neu gan arolygydd a benodwyd gan yr awdurdod lleol ac sy'n gweithredu o dan gyfarwyddyd y Cynulliad Cenedlaethol;
- (b) rhaid iddynt fod mewn ysgrifen;
- (c) caniateir iddynt fod yn gyffredinol neu'n benodol;
- (ch) caniateir, yn ychwanegol at unrhyw amodau sy'n ofynnol gan y Rheoliadau hyn, eu gwneud yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn credu eu bod yn angenrheidiol i reoli clefyd; a
- (d) caniateir eu diwygio, eu hatal neu eu dirymu, mewn ysgrifen, ar unrhyw adeg.

### Declarations, notices and licences

3.—(1) Declarations made under these Regulations—

- (a) must be in writing;
- (b) may be amended or revoked, by further declaration in writing, at any time;
- (c) must designate the extent of the vaccination zone being declared;
- (d) must refer to the minimum measures which apply in the vaccination zone and state whether they apply in all or part of the zone;
- (e) must state which categories of birds the measures apply to; and
- (f) must state at whose expense the measures are to be carried out.

(2) Notices issued under these Regulations—

- (a) may be amended or revoked, by further notice, at any time;
- (b) must specify whether they apply to all or part of the premises;
- (c) must, if they apply to part of premises, specify to which part they apply;
- (d) must refer to the minimum measures which apply to the premises;
- (e) must state which categories of birds the measures apply to; and
- (f) must state at whose expense the measures are to be carried out.

(3) Licences granted under these Regulations—

- (a) must be granted by the National Assembly or by an inspector appointed by the local authority acting under its direction;
- (b) must be in writing;
- (c) may be general or specific;
- (d) may, in addition to any conditions required by these Regulations, be made subject to such conditions as the National Assembly considers necessary to control disease; and
- (e) may be amended, suspended or revoked, in writing, at any time.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol gymryd unrhyw gamau a wêl yn dda i sicrhau bod datganiadau, hysbysiadau a thrwyddedau yn cael eu dwyn i sylw'r rhai y gallant effeithio arnynt cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

(5) Yn benodol, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sicrhau bod cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i faint unrhyw barth a ddatgenir o dan y Rheoliadau hyn, natur y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gymwys ynddo a dyddiadau ei ddatgan a'i ddileu.

(6) Ac eithrio pan gyfarwyddir fel arall gan y Cynulliad Cenedlaethol (mewn datganiad o barth brechu neu drwy hysbysiad i ddeiliad y drwydded), bydd trwyddedau a roddir yn yr Alban, Lloegr neu Ogledd Iwerddon ar gyfer gweithgareddau y gellid eu trwyddedu yng Nghymru o dan y Rheoliadau hyn yn effeithiol yng Nghymru fel petaent yn drwyddedau a roddwyd o dan y Rheoliadau hyn.

(7) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded benodol a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) cadw'r drwydded neu gopi ohoni gydag ef bob amser yn ystod y symudiad trwyddedig;
- (b) os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu swyddog arall i'r Cynulliad Cenedlaethol, dangos y drwydded a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohoni gael ei gymryd; ac
- (c) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

(8) Rhaid i berson sy'n symud unrhyw beth o dan awdurdod trwydded gyffredinol a ddyroddir o dan y Rheoliadau hyn, wneud y canlynol—

- (a) cario gydag ef, ar bob adeg yn ystod y symudiad trwyddedig, nodyn traddodi sy'n cynnwys manylion—
  - (i) yr hyn sy'n cael ei symud (gan gynnwys faint ohono);
  - (ii) dyddiad y symudiad;
  - (iii) enw a chyfeiriad y fangre gychwynnol;
  - (iv) enw a chyfeiriad y gyrchfan.
- (b) dangos, os gofynnir iddo wneud hynny gan arolygydd neu swyddog arall i'r Cynulliad Cenedlaethol, y nodyn traddodi a chaniatáu i gopi neu ddyfyniad ohono gael ei gymryd; ac
- (c) os gofynnir iddo wneud hynny, rhoi ei enw a'i gyfeiriad.

#### **Gwahardd brechu**

4.—(1) Ni chaiff neb frechu unrhyw aderyn yn erbyn ffliw adar ac eithrio pan fo'n ofynnol gan y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â rheoliad 5 neu 6.

(4) The National Assembly must take such steps as it considers fit to ensure that declarations, notices and licences are brought to the attention of those who may be affected by them as soon as is reasonably practicable.

(5) The National Assembly must, in particular, ensure that the extent of any zone declared under these Regulations, the nature of the restrictions and requirements applicable within it and the dates of its declaration and withdrawal are publicised.

(6) Except as otherwise directed by the National Assembly (in a declaration of a vaccination zone or by notice to the licence holder), licences granted in Scotland, England or Northern Ireland for activities which could be licensed in Wales under these Regulations have effect in Wales as if they were licences granted under these Regulations.

(7) A person moving anything under the authority of a specific licence granted under these Regulations must—

- (a) keep the licence or a copy of it with him or her at all times during the licensed movement;
- (b) on demand made by an inspector or other officer of the National Assembly, produce the licence and allow a copy or extract to be taken; and
- (c) on such demand, furnish his or her name and address.

(8) A person moving anything under the authority of a general licence granted under these Regulations must—

- (a) carry with him or her, at all times during the licensed movement, a consignment note which contains details of—
  - (i) what is moved (including its quantity);
  - (ii) the date of the movement;
  - (iii) the name and address of the originating premises;
  - (iv) the name and address of the place of destination.
- (b) on demand by an inspector or by another officer of the National Assembly, produce the consignment note and allow a copy or extract to be taken; and
- (c) on such demand, furnish his or her name and address.

#### **Prohibition on vaccination**

4.—(1) No person is to vaccinate any bird against avian influenza except where required by the National Assembly in accordance with regulation 5 or 6.

(2) Nid yw'r gwaharddiad yn y rheoliad hwn yn gymwys i'r canlynol—

- (a) unrhyw beth a wneir o dan awdurdod trwydded a roddwyd o dan erthygl 4 o Orchymyn Pathogenau Anifeiliaid Penodedig 1998(1); neu
- (b) rhoi brechlyn yn unol â thystysgrif prawf anifeiliaid a roddwyd o dan reoliad 8 o Reoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol 2005(2).

#### **Penderfyniad i wneud brechu brys yn ofynnol**

5.—(1) Pan fo'r amod ym mharagraff (2) wedi'i fodloni, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol i leihau'r risg o ymlediad fflw adar—

- (a) datgan parth brechu brys yng Nghymru gyfan neu mewn rhan ohoni, pan fo'r ardaloedd hynny yn cynnwys dofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu; neu
- (b) cyflwyno hysbysiad brechu brys i feddiannydd unrhyw fangre lle mae dofednod, adar caeth eraill neu unrhyw gategori o ddofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu, yn cael eu cadw.

(2) Yr amod y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yw bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi gwneud asesiad risg sy'n dangos bod bygythiad sylweddol ac uniongyrchol y byddai fflw adar yn ymledu yng Nghymru neu i Gymru oherwydd—

- (a) brigiad fflw adar yn y Deyrnas Unedig;
- (b) brigiad fflw adar mewn Aelod-wladwriaeth gyfagos; neu
- (c) bod presenoldeb fflw adar mewn dofednod neu adar caeth eraill mewn trydedd wlad gyfagos wedi'i gadarnhau.

(3) Bernir bod unrhyw fangre sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth brechu brys yn gyfan gwbl y tu mewn i'r parth hwnnw.

#### **Penderfyniad i wneud brechu ataliol yn ofynnol**

6.—(1) Pan fo'r amodau ym mharagraff (2) wedi'u bodloni, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, os yw'n credu ei bod yn angenrheidiol i leihau'r risg o ymlediad fflw adar—

- (a) datgan parth brechu ataliol yng Nghymru gyfan neu mewn rhan ohoni, pan fo'r ardaloedd hynny yn cynnwys dofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu; neu

(2) The prohibition in this regulation does not apply to—

- (a) anything done under the authority of a licence granted under article 4 of the Specified Animal Pathogens Order 1998(1); or
- (b) administration of a vaccine in accordance with an animal test certificate granted under regulation 8 of the Veterinary Medicines Regulations 2005(2).

#### **Decision to require emergency vaccination**

5.—(1) Where the condition in paragraph (2) is fulfilled, the National Assembly must, if it considers necessary to reduce the risk of the spread of avian influenza—

- (a) declare an emergency vaccination zone in all or part of Wales, where these areas contain poultry or other captive birds which it considers should be vaccinated; or
- (b) serve an emergency vaccination notice on the occupier of any premises where poultry, other captive birds or any category of poultry or other captive bird which it considers should be vaccinated, are kept.

(2) The condition referred to in paragraph (1) is that the National Assembly has carried out a risk assessment which indicates that there is a significant and immediate threat of avian influenza spreading within or into Wales following—

- (a) an outbreak of avian influenza within the United Kingdom;
- (b) an outbreak of avian influenza within a nearby Member State; or
- (c) confirmation of the presence of avian influenza in poultry or other captive birds in a nearby third country.

(3) Any premises which are partly inside and partly outside an emergency vaccination zone are deemed to be wholly within it.

#### **Decision to require preventive vaccination**

6.—(1) Where the conditions in paragraph (2) are fulfilled, the National Assembly must, if it considers necessary to reduce the risk of transmission of avian influenza—

- (a) declare a preventive vaccination zone in all or part of Wales, where these areas contain poultry or other captive birds which it considers should be vaccinated; or

---

(1) O.S. 1998/463.

(2) O.S. 2005/2745.

---

(1) S.I. 1998/463.

(2) S.I. 2005/2745.

- (b) cyflwyno hysbysiad brechu ataliol i feddiannydd unrhyw fangre lle mae dofednod, adar caeth eraill neu unrhyw gategori o ddofednod neu adar caeth eraill y mae'n credu y dylid eu brechu, yn cael eu cadw.

(2) Yr amodau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yw—

- (a) bod asesiad risg wedi'i wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol a bod yr asesiad hwnnw'n dangos bod pob ardal yng Nghymru neu fod ardaloedd penodol o Gymru, mathau o hwsmonaeth ddofednod neu categorïau penodol o ddofednod neu adar caeth eraill yn agored i risg ffliw adar; a
- (b) bod cynllun brechu ataliol wedi'i gyflwyno i'r Comisiwn ac wedi'i gymeradwyo ganddo yn unol ag Erthyglau 56 a 57 o'r Gyfarwyddeb.

(3) Bernir bod unrhyw fangre sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth brechu ataliol yn gyfan gwbl y tu mewn i'r parth hwnnw.

### Estyn y pŵer i beri brechu

7. Er gwaethaf adran 16(1) o'r Ddeddf, caiff y Cynulliad Cenedlaethol beri bod dofednod neu adar caeth eraill nad ydynt yn dod o dan yr adran honno yn cael eu brechu os ydynt mewn parth brechu neu o fewn mangre sy'n destun hysbysiad brechu ac mae darpariaethau canlynol y Ddeddf yn gymwys fel pe bai'r cyfryw frechu'n cael ei wneud wrth arfer y pŵer yn adran 16(1)—

- (a) is-adrannau 16(2) i 16(17)(1) (triniaeth ar ôl bod yn agored i haint);
- (b) adran 16A(2) (lladd anifeiliaid sydd wedi'u brechu); ac
- (c) adran 62A(3) (lladd: pŵer mynediad).

### Mesurau sy'n gymwys mewn parth brechu neu i fangre o dan hysbysiad

8.—(1) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol, mewn datganiad o barth brechu neu mewn hysbysiad brechu—

- (a) ei gwneud yn ofynnol i ddofednod, adar caeth eraill neu unrhyw gategori penodedig o ddofednod neu adar caeth eraill gael eu brechu yn unol â chyfarwyddiadau a ddyroddir ganddo; neu

- (b) serve a preventive vaccination notice on the occupier of any premises where poultry, other captive birds or any category of poultry or other captive bird which it considers should be vaccinated, are kept.

(2) The conditions referred to in paragraph (1) are—

- (a) a risk assessment has been carried out by the National Assembly which indicates that all or certain areas of Wales, types of poultry husbandry or certain categories of poultry or other captive birds are exposed to the risk of avian influenza; and
- (b) a preventive vaccination plan has been submitted to and approved by the Commission in accordance with Articles 56 and 57 of the Directive.

(3) Any premises which are partly inside and partly outside a preventive vaccination zone are deemed to be wholly within it.

### Extension of the power to cause vaccination

7. Notwithstanding section 16(1) of the Act, the National Assembly may cause vaccination of poultry or captive birds which do not fall within that section where they are in a vaccination zone or within premises which are the subject of a vaccination notice and the following provisions of the Act apply as if such vaccination was carried out in exercise of the power in section 16(1)—

- (a) sub-sections 16(2) to 16(17)(1) (treatment after exposure to infection);
- (b) section 16A(2) (slaughter of vaccinated animals); and
- (c) section 62A(3) (slaughter: power of entry).

### Measures applying in a vaccination zone or to premises under notice

8.—(1) The National Assembly must, in a declaration of a vaccination zone or in a vaccination notice—

- (a) require the vaccination of poultry, other captive birds or any specified category of poultry or other captive bird in accordance with instructions issued by it; and

(1) Diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), adran 7.

(2) Mewnosodwyd adran 16A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), adran 5.

(3) Mewnosodwyd adran 62A gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 (p.42), adran 8.

(1) Section 16 was amended by the Animal Health Act 2002 (c.42), section 7.

(2) Section 16A was inserted by the Animal Health Act 2002 (c.42), section 5.

(3) Section 62A was inserted by the Animal Health Act 2002 (c.42), section 8.



- (b) pan fo'r brechu i'w wneud gan y Cynulliad Cenedlaethol, ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson a awdurdodir ganddo i wneud y brechu gael cydweithrediad.

(2) Ni chaff neb symud unrhyw ddofeddyn, aderyn caeth arall na'u cynhyrchion—

- (a) allan o barth brechu; neu
- (b) allan o fangre sy'n destun hysbysiad brechu;

ac eithrio o dan awdurdod trwydded.

(3) Ym mharagraff (2) ystyr "*cynhyrchion*" ("*products*") dofednod neu adar caeth eraill yw unrhyw garcas, unrhyw wŷy neu unrhyw beth arall sy'n tarddu neu sydd wedi'i wneud (boed yn gyfan gwbl neu'n rhannol) o ddofednod neu adar caeth eraill neu garcasau adar o'r fath.

(4) Nid yw paragraff (2) yn gymwys—

- (a) i gynhyrchion sy'n deillio o ddofednod neu adar caeth eraill a leolir y tu allan i barth brechu neu fangre sy'n destun hysbysiad brechu; neu
- (b) i ddsbarthiad manwerthol wyau dofednod a symudiadau sy'n dilyn dosbarthiad o'r fath.

(5) Mae paragraffau (2) i (4) yn gymwys heb leihau effaith unrhyw ofyniad neu gyfyngiad arall sy'n gymwys mewn unrhyw ran o barth neu fangre am fod y rhan honno o'r parth neu'r fangre yn dod o fewn parth arall a ddatganwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, neu am ei bod yn destun hysbysiad arall a gyflwynwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, at ddibenion lleihau'r risg o ymlediad fflw adar neu at unrhyw ddibenion eraill.

(6) Rhaid i unrhyw berson sy'n symud dofednod, adar caeth eraill neu eu cynhyrchion o dan y rheoliad hwn gadw cofnod, ar ffurf nodyn traddodi neu fel arall, o ddyddiad y symudiad ac o rif cofrestru unrhyw gerbyd a ddefnyddiwyd, am o leiaf chwe wythnos ar ôl dyddiad y symudiad.

### **Brechu brys heb gynllun a gymeradwywyd**

9.—(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn datgan parth brechu brys neu'n cyflwyno hysbysiad brechu brys cyn bod cynllun brechu brys wedi'i gymeradwyo gan y Comisiwn yn unol ag Erthygl 54 o'r Gyfarwyddeb—

- (a) rhaid i drwydded a ddyroddir o dan reoliad 8(2) osod yr amodau a bennir yn yr Atodlen;
- (b) rhaid i berchennog neu yrrwr unrhyw gerbyd neu gyfrwng cludo arall a ddefnyddir i gludo dofednod byw neu adar caeth eraill, wyau dofednod neu gig dofednod o dan drwydded

- (b) where vaccination is to be carried out by the National Assembly, require co-operation with any person authorised by it to carry out vaccination.

(2) No person is to move any poultry, other captive bird or their products—

- (a) out of a vaccination zone; or
- (b) out of premises which are the subject of a vaccination notice;

except under the authority of a licence.

(3) In paragraph (2), the "products" ("*cynhyrchion*") of poultry or other captive birds means any carcase, egg or any other thing originating or made (whether in whole or in part) from poultry or other captive birds or the carcasses of such birds.

(4) Paragraph (2) does not apply to—

- (a) products which derive from poultry or other captive birds located outside a vaccination zone or premises which are the subject of a vaccination notice; or
- (b) the retail distribution of poultry eggs and movements subsequent to such distribution.

(5) Paragraphs (2) to (4) apply without prejudice to any other requirement or restriction applying in any part of a zone or premises because that part of the zone or premises falls within another zone declared by the National Assembly, or is the subject of another notice served by the National Assembly, for the purposes of reducing the risk of the spread of avian influenza or any other purpose.

(6) Any person moving poultry, other captive birds or their products under this regulation must keep a record, in the form of a consignment note or otherwise, of the date of the movement and the registration of any vehicle used, for at least six weeks after the date of the movement.

### **Emergency vaccination without an approved plan**

9.—(1) Where the National Assembly declares an emergency vaccination zone or serves an emergency vaccination notice before an emergency vaccination plan has been approved by the Commission in accordance with Article 54 of the Directive—

- (a) a licence issued under regulation 8(2) must impose the conditions set out in the Schedule;
- (b) the owner or driver of any vehicle or other means of transport used for transporting live poultry or other captive birds, poultry eggs or poultry meat under such a licence must, as

o'r fath lanhau a diheintio, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl eu defnyddio, y cerbyd hwnnw ac unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd i gludo deunydd o'r fath yn unol â Rhan 1 o Atodlen 3 o'r Gorchymyn Ffliw Adar i'r graddau y mae'n gymwys i gerbydau;

- (c) rhaid i arolygydd milfeddygol, drwy hysbysiad i berchennog neu yrrwr cerbyd neu gyfrwng cludo arall y cyfeirir ato yn is-baragraff 1(b), ei gwneud yn ofynnol i unrhyw beth a allai fod wedi'i halogi â'r firws fflw adar ac y mae'n credu nad oes modd iddo gael ei lanhau na'i ddiheintio na'i drin.

(2) O dan is-baragraff 1(b), rhaid diheintio'n unol ag Erthygl 66(4) o'r Gorchymyn Ffliw Adar.

(3) Rhaid darllen cyfeiriadau at "y Gorchymyn hwn" yn Rhan 1 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn Ffliw Adar fel cyfeiriadau at y Rheoliadau hyn.

(4) Bernir bod canolfannau pacio a lladd-dai sydd wedi'u dynodi o dan y Gorchymyn Ffliw Adar wedi'u dynodi at ddibenion derbyn dofednod, adar caeth eraill, wyau dofednod neu gig dofednod (yn ôl y digwydd) sy'n cael eu symud o dan drwydded a roddwyd o dan reoliad 8(2) o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff (1).

(5) Pan fydd y cynllun brechu brys wedi'i gymeradwyo yn unol ag Erthygl 54 o'r Gyfarwyddeb, caiff y Cynulliad Cenedlaethol neu arolygydd sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddyd amrywio'r amodau yn y drwydded y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (1)(a).

### **Methiant i frechu anifeiliaid a bennwyd i'w brechu**

**10.**—(1) Rhaid i unrhyw berson (ac eithrio arolygydd) sy'n gwybod neu sy'n amau bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gwneud yn ofynnol i aderyn gael ei frechu, ond nad oedd yr aderyn hwnnw wedi'i frechu ar yr adeg y dylai fod wedi'i frechu, hysbysu ar unwaith Reolwr Milfeddygol Rhanbarthol y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol ar gyfer yr ardal y mae'r aderyn hwnnw wedi'i leoli ynddi.

(2) Os bydd arolygydd yn amau bod y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gwneud yn ofynnol i aderyn gael ei frechu, ond nad oedd yr aderyn hwnnw wedi'i frechu ar yr adeg y dylai fod wedi'i frechu, rhaid i'r arolygydd drefnu bod yr aderyn hwnnw yn cael ei frechu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

### **Glanhau a diheintio cerbydau: darparu cyfleusterau, cyfarpar a deunyddiau**

**11.** Pan fo'n ofynnol glanhau a diheintio cerbydau yn unrhyw fangre gan neu o dan y Rheoliadau hyn, rhaid i feddiannydd y fangre honno ddarparu cyfleusterau digonol a chyfarpar priodol a deunyddiau priodol ar gyfer y glanhau a'r diheintio hwnnw.

soon as reasonably practicable after use, cleanse and disinfect that vehicle and any equipment used in the transportation of such material in accordance with Part 1 of Schedule 3 of the Avian Influenza Order insofar as it is applicable to vehicles;

- (c) a veterinary inspector must, by notice to the owner or driver of a vehicle or other means of transport referred to in sub-paragraph 1(b), require the destruction of any thing which may be contaminated with avian influenza virus and which he or she considers cannot be cleansed and disinfected or treated.

(2) Under sub-paragraph (1)(b), disinfection must be carried out in accordance with Article 66(4) of The Avian Influenza Order.

(3) References to "this Order" in Part 1 of Schedule 3 of the Avian Influenza Order must be read as references to these Regulations.

(4) Packing centres and slaughterhouses which are designated under the Avian Influenza Order are deemed to be designated for the purpose of receiving poultry, other captive birds, poultry eggs or poultry meat (as the case may be) which are moved under a licence granted under regulation 8(2) in the circumstances described in paragraph (1).

(5) Upon approval of the emergency vaccination plan in accordance with Article 54 of the Directive, the National Assembly or an inspector acting under its direction may vary the conditions in the licence referred to in paragraph (1)(a).

### **Failure to vaccinate animals specified for vaccination**

